Centre of expertise on child sexual abuse

Chanon Consulting
WE ALL HAVE A RIGHT TO BE SAFE

Gwella dealltwriaeth o raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol

# Gwella data asiantaethau ar gam-drin plant yn rhywiol

## Astudiaeth beilot o'r templed casglu data ar gam-drin plant yn rhywiol – Crynodeb

Christine Christie
a Kairika Karsna

Gorffennaf 2019



# Crynodeb

**Mae gwella gwybodaeth am raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol (CSA) yn nod allweddol ar gyfer y Ganolfan CSA. Er bod y ddau ddegawd diwethaf wedi gweld gwelliannau sylweddol o ran diffinio, cofnodi a monitro CSA ar draws yr ystod o randdeiliaid, mae angen gwaith pellach i wella cysondeb a safoni'r broses o gasglu data rhwng awdurdodau lleol ac asiantaethau cyfiawnder troseddol, ac i wneud defnydd gwell o'r data lleol sy'n bodoli'n barod.**

Heb ddata cywir a chyfanredol ar broffiliau o ddioddefwyr a chyflawnwyr cam-drin rhywiol, a sut a ble y cyflawnir y cam-drin, mae'n anodd ymateb i'r CSA a datblygu / comisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion dioddefwyr. Gall data sylfaenol y gellir ei gymharu ar draws gwasanaethau lleol helpu i greu darlun mwy cynhwysfawr o gam-drin yn lleol, nodi bylchau mewn gwasanaethau, ac yn y pen, draw galluogi darparu gwell gwasanaethau. Gall helpu i lywio strategaethau atal a tharfu, a sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu'n briodol.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth beilot o 'dempled casglu data CSA', sef offeryn a ddatblygwyd gan y Ganolfan CSA i helpu asiantaethau i wella sut maent yn casglu ac yn cofnodi gwybodaeth gan eu defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r templed yn argymell 37 o eitemau craidd o ddata y dylai pob asiantaeth sy'n gweithio gyda'r CSA – gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) – geisio eu casglu, yn cynnwys data sy'n ymwneud â'r dioddefwr, y tramgwyddwr, cyd-destun y cam-drin, a chyfranogiad gwasanaethau. Mae hefyd yn argymell sut dylid categoreiddio'r data, fel y gellir cofnodi gwybodaeth yn systematig ac yna ei thynnu o systemau data a'i hadrodd mewn fformat safonol.

Nod yr astudiaeth beilot oedd sefydlu a allai asiantaethau allweddol sy'n gweithio gyda'r CSA roi'r templed casglu data ar waith. Ar draws pedwar maes, roedd yn cynnwys pedwar gwasanaeth plant awdurdodau lleol, pedwar heddlu a chwe gwasanaeth sector gwirfoddol. Er mai sampl fechan oedd hon, sy'n golygu nad oedd modd cyffredinoli'r canfyddiadau, mae'r peilot wedi amlygu rhai o'r heriau y mae asiantaethau'n eu hwynebu wrth gofnodi ac adrodd ar wybodaeth am achosion CSA y maent yn gweithio â nhw – a'r manteision, o ran gwella ansawdd a chysondeb data, a allai ddeillio o fabwysiadu'r templed.

## Canfyddiadau allweddol

### *Mathau o ddata a gasglwyd, a diwyg y data*

Ar y cyfan, roedd mwyafrif eitemau data craidd y templed casglu data eisoes yn cael eu casglu (er nad o reidrwydd mewn ffordd gyson) gan yr heddlu, gwasanaethau plant a'r sector gwirfoddol.

Dim ond tair eitem ddata, gyda phob un yn ymwneud ag agweddau ar ymddygiad tramgwyddwyr, oedd ddim yn cael eu casglu'n gyson gan yr asiantaethau a gymerodd ran yn y peilot: a oedd y tramgwyddwr yn gweithredu fel hwylusydd ar gyfer camdrinwyr eraill, a oedd yna elfen gyfnewid (ennill budd i'r tramgwyddwr neu y dioddefwr), a pha strategaethau hudo neu reoli (ee alcohol, anrhegion, bygythiadau) a ddefnyddiwyd gan y tramgwyddwr. Er mwyn i ddata fod yn ddefnyddiol, fodd bynnag, mae angen ei gofnodi mewn fformat sy'n ei alluogi i gael ei dynnu'n hawdd o systemau data a'i adrodd. Yna gellir ei ddefnyddio i ddeall patrymau lleol o gam-drin a phroffiliau'r rhai dan sylw.

Er bod yr asiantaethau a gymerodd ran yn yr astudiaeth beilot yn casglu'r rhan fwyaf o'r eitemau data craidd yn y templed casglu data, dim ond data am broffil demograffig y dioddefwyr a gofnodwyd mewn fformat y gellid adrodd amdano; roedd y rhan fwyaf o'r gweddill yn cael ei storio mewn meysydd testun naratif (gan gynnwys, weithiau, mewn dogfennau Word wedi'u mewnosod ar nodiadau achos) a'u defnyddio'n bennaf ar gyfer cynllunio a gwneud penderfyniadau am achosion unigol yn hytrach nag ar gyfer cynllunio a chomisiynu strategol.

Dim ond mân wahaniaethau a ganfuwyd rhwng y tri math o asiantaeth – gwasanaethau plant, heddluoedd a'r sector gwirfoddol – o ran eu gallu i adrodd neu'r mathau o ddata a gasglwyd ganddynt. Cofnododd yr heddlu ystod ehangach o ddata proffil tramgwyddwyr mewn fformat y gellid ei adrodd (rhyw, oedran, ethnigrwydd) nag asiantaethau eraill (dim ond rhyw). Roedd un asiantaeth yn y sector gwirfoddol yn gallu adrodd ar y rhan fwyaf o'r set data a nodwyd yn y templed casglu data, gan gynnwys ar y tramgwyddwr, ond roedd hwn yn eithriad.

> Mae'r templed yn argymell 37 o eitemau craidd o ddata y dylai pob asiantaeth sy'n gweithio gyda'r CSA – gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) – geisio eu casglu

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y byddai'r asiantaethau sy'n rhan o'r peilot yn gwella eu gallu i ddefnyddio eu data pe baent yn gwneud newidiadau i'r ffordd y maent yn cofnodi data yn hytrach na pha wybodaeth y maent yn ei chasglu. Gellid gwneud gwelliannau sylweddol heb osod baich ychwanegol ar ymarferwyr pe bai darpariaethau yn cael eu gwneud yn y systemau data i'r wybodaeth sydd eisoes yn cael ei chasglu fod yn gategorïau gwahanol yn ogystal â nodiadau testun rhydd. Roedd y mwyafrif (79%) o ddefnyddwyr gwasanaeth o gefndir Prydeinig gwyn. O gymharu â'r boblogaeth leol, roedd grwpiau lleiafrifoedd ethnig heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sampl.

### *Ansawdd data*

Mae angen i ddata fod yn gywir ac wedi'i gofnodi'n gyson os oes unrhyw werth iddo. Codwyd cywirdeb data CSA fel mater yn y meysydd peilot: yn benodol, amlygwyd nad oedd cofnodion yn aml yn cael eu diweddaru yn ystod gwaith achos, a bod atgyfeiriadau yn amwys yn hytrach na bod yn benodol ynglŷn â phryderon.

Disgrifiodd y rhai a gafodd eu cyfweld o'r pedair ardal beilot wahaniaethau o ran sut roedd gwasanaethau ehangach yr Asiantaeth Cynnal Plant a gwasanaethau arbenigol CSE yn cofnodi data. Awgrymwyd bod data CSE yn cael ei gadw'n fwy cywir ac yn fanylach na data ar fathau eraill o CSA. Dywedwyd hefyd bod CSE yn fwy gweladwy mewn ffurflenni atgyfeirio, ac mewn systemau data drwy ddefnyddio 'baner' CSE – nid oedd baneri ar gyfer mathau eraill o CSA yn bodoli ar systemau data gwasanaethau plant, ac nid oedd eu defnydd wedi'i ymgorffori'n dda eto yng nghronfa ddata'r heddlu.

### *Llywodraethiant data*

Mae gwybodaeth sy'n cael ei hadrodd yn rheolaidd, sy'n hawdd ei deall, am y darlun CSA lleol yn hanfodol i wneud penderfyniadau ar gyllidebu, cynllunio gwasanaethau, comisiynu a darparu gwasanaethau. Canfu'r astudiaeth beilot fod adroddiadau'n cael eu paratoi'n rheolaidd am CSE, ond roedd yr adroddiadau hynny yn canolbwyntio ar achosion unigol yn hytrach na phatrymau ehangach; roedd hyn yn cyfyngu ar ba mor ddefnyddiol roedden nhw ar gyfer deall tueddiadau yn natur y cam-drin.

Prin oedd yr enghreifftiau o adroddiadau rheolaidd ar CSA ar wahân i CSE yn unrhyw un o'r meysydd peilot, er bod adroddiad chwarterol ar gyfer y bwrdd diogelu plant lleol mewn un maes yn cynnwys rhywfaint o ddata ar CSA. Cyfrannodd y diffyg adrodd hwn, ynghyd â dryswch ymarferwyr ynglŷn â diffiniadau allweddol a lefelau amrywiol o ddealltwriaeth o CSA, at anghywirdeb ac anghysondeb wrth gofnodi data CSA.

### *Systemau data*

Dim ond pan fydd systemau data yn galluogi hynny y gellir cofnodi data yn gywir ac yn gyson. Canfu'r astudiaeth beilot fod data CSA yn cael ei storio ar brif gronfeydd data craidd asiantaethau, ond cofnodwyd data CSE hefyd mewn taenlenni timau arbenigol. Dywedwyd bod newid

> Ystyriwyd bod gan y templed y potensial i leihau anghysondeb, gwella manylion a mynd i'r afael â'r bylchau presennol yn y data CSA

cronfeydd data craidd yn anodd ac yn ddrud oherwydd eu bod yn cael eu darparu'n allanol. Defnyddiodd awdurdodau lleol yn yr ardaloedd peilot naill ai ddau o brif ddarparwyr systemau data gwasanaethau plant (Liquidlogic a CareFirst), tra bod yr heddlu'n defnyddio ystod fwy o systemau 'oddi ar y silff' (gan gynnwys Niche, Genesis ac Athena). Awgrymwyd, yn y lle cyntaf, y gellid lleddfu gweithredu drwy gyflwyno 'ffurflen' ar wahân i'r systemau data hyn gyda phwyntiau gosod o gofnodi data. Defnyddiodd asiantaethau'r sector gwirfoddol eu cronfeydd data pwrpasol eu hunain, a gwelwyd bod hynny yn cynnig mwy o hyblygrwydd i wneud newidiadau.

### *Adborth ar y templed casglu data*

Croesawodd y cyfranogwyr yr hyn a welent fel manteision y templed casglu data, gan gynnwys ei botensial i leihau anghysondeb, gwella manylion a mynd i'r afael â'r bylchau presennol yn y data CSA. Yn fras, roeddent yn cytuno â'i feysydd a'i gategorïau tra'n awgrymu mân newidiadau. Bydd yr awgrymiadau hyn yn cael eu hystyried gan y Ganolfan CSA cyn lansio'r templed ddiwedd 2019.

## Goblygiadau ar gyfer cyflwyno'r templed casglu data

Canfu'r cynllun peilot, er mwyn i'r templed casglu data wella proses yr asiantaethau gasglu a chofnodi data CSA, y bydd angen iddo gael ei gefnogi gan waith ehangach i wella ansawdd a chywirdeb data. Rhaid i'r gwaith hwn fynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Mae angen mwy o eglurder ar ymarferwyr o ran diffinio CSA a CSE.
- Mae angen hyfforddiant arnynt i wella cydnabyddiaeth a chofnodi CSA.
- Mae angen i reolwyr gwasanaethau annog diweddaru data wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg.
- Mae angen dulliau adrodd mwy cyson a rheolaidd – yn enwedig o ddata CSA – i gyrff aml-asiantaeth lleol.

Yn ogystal â chefnogi'r asiantaethau, gallai'r Ganolfan CSA annog cyflwyno'r templed casglu data drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid cenedlaethol a darparwyr data i gefnogi'r broses o'i weithredu.

**Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn www.csacentre.org.uk/our-research/the-scale-and-nature-of-csa/improving-agency-records/**

## Gwybodaeth am yr awdur

Christine Christie yw cyfarwyddwr Chanon Consulting, sefydliad diogelu annibynnol. Mae ganddi arbenigedd penodol ym meysydd cam-drin plant yn rhywiol a gwerthuso systemau.

Mae Kairika Karsna yn uwch-swyddog ymchwil a gwerthuso yn y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.

## Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Mae'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CSA) yn dymuno gweld plant yn cael byw'n rhydd rhag bygythiad a niwed cam-drin rhywiol. Ein nod yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy gamau atal gwell ac ymateb gwell.

Rydym ni'n dîm amlddisgyblaethol, sy'n cael ei ariannu gan y Swyddfa Gartref a'i gynnal gan Barnardo's, ac rydym yn gweithio'n agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, rydym ni'n annibynnol a byddwn yn herio unrhyw rwystrau, rhagdybiaethau, tabŵau a ffyrdd o weithio sy'n ein hatal rhag cynyddu ein dealltwriaeth a gwella ein hagwedd at gam-drin plant yn rhywiol.

Er mwyn mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, mae'n rhaid i ni ddeall beth sy'n ei achosi, ei gwmpas, graddfa ac effaith. Gwyddom lawer am gam-drin plant yn rhywiol ac rydym wedi gwneud cynnydd i ymdrin â hyn, ond mae nifer o fylchau yn ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o hyd sy'n cyfyngu pa mor effeithiol yr eir i'r afael â'r mater.

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre | @csacentre
**www.csacentre.org.uk**

21059sc19